

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL
CYMRU**

IS – DDEDDFWRIAETH

2006 Rhif 50

ADDYSG, CYMRU

**MEINI PRAWF AR GYFER
ACHREDU HYFFORDDIANT
CYCHWYNNOL
ATHRAWON GAN GYNGOR
CYLLIDO ADDYSG UWCH
CYMRU 2006**

Gwnaed 4 Gorffennaf 2006

Yn dod i rym 1 Medi 2006

Nodyn Esboniadol

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Offeryn)

O dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, mae “sefydliad achrededig” yn sefydliad sydd wedi ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan Reoliad 7 fel darparwr cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol.

O dan Reoliad 7(2) o Reoliadau 2004, ni chaiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru achredu sefydliad sy'n darparu cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ar wahân i sefydliad sy'n bodloni meini prawf a gaiff eu dynodi o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol.

O dan Reoliad 7(3) o Reoliadau 2004, gall Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru dynnu achrediad sefydliad yn ôl yn unol â meini prawf a gaiff eu dynodi gan y Cynulliad Cenedlaethol o dro i dro.

Mae'r offeryn hwn yn nodi'r meini prawf achredu sy'n rhaid i bob sefydliad achrededig sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon eu bodloni. Maent yn cynnwys gofynion ar gyfer darparu cyrsiau

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sy'n disodli'r gofynion a nodwyd yn flaenorol yng Nghylchlythyr 13/98 y Swyddfa Gymreig.

Nid yw'r offeryn hwn yn nodi gweithdrefnau ar gyfer sut y dylid cyflwyno cynigion i achredu na'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn pan fo tystiolaeth nad yw sefydliad achrededig yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodwyd yma. Bydd llunio'r gweithdrefnau hyn a sefydlu a chyhoeddi dogfennaeth glir a chyson iddynt yn fater i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL
CYMRU**

IS – DDEDDFWRIAETH

2006 Rhif 50

ADDYSG, CYMRU

**MEINI PRAWF AR GYFER
ACHREDU HYFFORDDIANT
CYCHWYNNOL
ATHRAWON GAN GYNGOR
CYLLIDO ADDYSG UWCH
CYMRU 2006**

Gwnaed 4 Gorffennaf 2006

Yn dod i rym 1 Medi 2006

Gwneir yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, O.S. 2004/1729, ac ar ôl ymghynghori â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn unol â rheoliad 7(4)

Dehongli

Ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, at bwrpas yr Offeryn hwn –

Ystyr “cwrsg Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon” – yw cwrsg hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn sefydliad achrededig o fewn ystyr Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004.

“Llywodraeth Cynulliad Cymru” - yw adain weithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys aelodau o Gabinet y Cynulliad a'r staff sy'n gweithio iddynt, sy'n gyfrifol am weithredu swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**MEINI PRAWF AR GYFER
ACHREDU HYFFORDDIANT
CYCHWYNNOL ATHRAWON GAN
GYNGOR CYLLIDO ADDYSG
UWCH CYMRU 2006**

Crynodeb

Mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon gael eu hachredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru er mwyn cynnal cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n caniatáu i'w myfyrwyr ennill Statws Athro Cymwysedig.

Er mwyn cael ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'n rhaid i sefydliad sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon gwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhoddir achrediad i'r sefydliad ac mae'n cynnwys yr holl gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a gynhelir gan y sefydliad hwnnw. Unwaith y caiff ei roi, nid oes terfyn amser i'r achrediad, ond mae modd ei dynnu'n ôl.

Ond nid yw achredu yn gwarantu y bydd unrhyw gwrs yn derbyn cyllid na dyraniad o nifer penodol o fyfyrwyr mewn unrhyw un flwyddyn. Mae cyllid a dyraniadau yn cael eu penderfynu ar wahân yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys ansawdd y ddarpariaeth a'r flaenoriaeth a roddir i'r pwnc, fel y pennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Gellir tynnu achrediad yn ôl lle bo tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae tynnu achrediad yn ôl yn berthnasol i'r sefydliad, nid i'r cwrs lle gwelwyd y diffyg cydymffurfio.

MEINI PRAWF AR GYFER ACHREDU HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON

Awdurdod

1. Mae'r meini prawf achredu hyn yn cael eu nodi yn unol â Rheoliad 7(2) a (3) o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004.

Sefydliadau sy'n darparu cyrsiau

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sydd angen achrediad

2. Mae'n ofynnol i Sefydliadau Addysg Uwch sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon gael eu hachredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnig cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sydd gan amlaf wedi'u lleoli mewn prifysgol neu goleg, ond gellir eu cynnig ar sail dysgu o bell. Yn unol â'r meini prawf achredu a nodir yma, mae'n rhaid i'r cyrsiau hyn fod mewn partneriaeth agos gydag ysgolion. Mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn gyfrifol am reoli'r hyfforddiant, ond yr ysgolion sy'n dewis, hyfforddi ac asesu hyfforddeion.
3. Nid yw darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon trwy gynllun Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth (ar raglenni megis Rhaglen Athrawon Graddedig) yn ddarostyngedig i feini prawf achredu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gynnwys y gofynion am gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sydd wedi eu nodi yma.

Egwyddorion

4. Mae'n rhaid i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gael sicrwydd bod unrhyw ddarparwr neu ddarparwr posibl o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn cwrdd â'r meini prawf achredu manwl a nodwyd yn y ddogfen hon. Yn arbennig, mae'n rhaid i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fod yn sicr bod:
 - (a) yr hyfforddiant yn diwallu (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o ddiwallu) yr holl ofynion ar gyfer cyrsiau

Hyfforddiant Cychwynnol
Athrawon sydd wedi eu nodi yn y
ddogfen hon;

- (b) bod yr hyfforddiant yn sicrhau (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o sicrhau) bod hyfforddeion yn cwrdd â'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig;
- (c) bod yr hyfforddiant o ansawdd uchel (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o fod o ansawdd uchel);
- (d) bod y ddarpariaeth yn golygu (neu fod y ddarpariaeth arfaethedig yn debygol o olygu) defnydd effeithlon o'i adnoddau, yn arbennig mewn perthynas â sicrhau darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon o ansawdd uchel;
- (e) y bydd y darparwr wedi sefydlu cyfundrefn effeithiol o reoli ansawdd;
- (f) bod y trefniadau sicrhau ansawdd a'r gweithdrefnau yn dangos bod y darparwr yn debygol o allu sicrhau gwelliant parhaus yn y blynyddoedd sydd i ddod
- (g) y bydd gweithdrefnau a chyfundrefnau rheolaeth ariannol yn sicrhau defnydd priodol o'r cyllid a dderbynnir oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

**Meini prawf ar gyfer achredu fel darparwr
cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol**

Athrawon

5. Cyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru achredu sefydliadau i weithredu fel darparwyr cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sy'n caniatáu i'w hyfforddeion ennill Statws Athro Cymwysedig, mae'n rhaid i'r Gyngor Cyllido fod wedi'i fodloni bod y sefydliadau wedi cwrdd â'r meini prawf a nodir yn (I)-(VI) isod; ac unwaith ei fod wedi achredu sefydliadau i weithredu fel darparwyr cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sy'n caniatáu i'w

hyfforddeion ennill Statws Athro Cymwysedig, mae'n rhaid i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru barhau i fod yn fodlon bod y sefydliadau yn cwrdd â'r meini prawf hyn:-

- (I) Eu bod yn diwallu'n llawn (neu y byddant yn diwallu'n llawn) y gofynion ar gyfer darparu cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon fel y'u nodwyd yn Atodiad A i'r ddogfen hon, yn arbennig:-
 - (a) bod hyfforddeion yn diwallu'r gofynion i gael mynediad i gwrs Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a nodir yn R1 o Atodiad A;
 - (b) bod holl agweddau'r hyfforddi a'r asesu yn diwallu'r gofynion a nodir yn R2 o Atodiad A;
 - (c) mewn achos y ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a ddisgrifir ym mharagraff 2(a) yn unig, bod yr hyfforddiant yn seiliedig ar bartneriaeth gref gydag ysgolion; a
 - (d) bod yr holl ofynion ar gyfer sicrhau ansawdd a nodir yn R4 o Atodiad A yn cael eu diwallu.
- (II) Eu bod yn cynnig (neu y byddant yn cynnig) hyfforddiant a fydd yn galluogi myfyrwyr i gyflawni'r safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig, yn arbennig:-
 - (a) bod cynnwys y rhaglen hyfforddi yn cyfateb yn agos â'r safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig; a
 - (b) bod myfyrwyr yn cael eu hasesu'n drwyadl yn erbyn pob un o'r safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig.
- (III) Eu bod yn darparu (neu y byddant yn darparu) hyfforddiant o

ansawdd uchel ac yn sicrhau
gwelliant parhaus trwy ddangos:-

- (a) bod arbenigedd wedi'i brofi
mewn Hyfforddiant
Cychwynnol Athrawon
ymhlith yr ysgolion a fydd
yn gysylltiedig;
- (b) bod pawb sy'n gysylltiedig
yn gwbl ymroddedig i
hyfforddiant o ansawdd
uchel;
- (c) bod pob agwedd o'r rhaglen
hyfforddi yn cael eu
gwerthuso'n rheolaidd ac yn
drwyadl; a
- (d) bod canlyniadau'r
gweithdrefnau sicrhau
ansawdd yn cael eu
defnyddio'n systematig er
mwyn sicrhau gwelliannau.

(IV) Eu bod yn dangos sail resymegol
sy'n argyhoeddi ar gyfer darparu
Hyfforddiant Cychwynnol
Athrawon sy'n:-

- (a) diwallu angen a ddynodir
(gan roi ystyriaeth i
amcangyfrifon Llywodraeth
Cynulliad Cymru o nifer y
lleoedd hyfforddi sydd eu
hangen) am leoedd
Hyfforddiant Cychwynnol
Athrawon mewn ardal
ddaearyddol ar gyfer ystod
oed arbennig a/neu'n
- (b) diwallu angen a ddynodir
(gan roi ystyriaeth i
amcangyfrifon Llywodraeth
Cynulliad o nifer y lleoedd
hyfforddi sydd eu hangen)
am leoedd Hyfforddiant
Cychwynnol Athrawon ar
gyfer pynciau arbennig neu
arbenigedd oed/cyfnod;
a/neu'n
- (c) cefnogi neu'n ychwanegu at
yr amrywiaeth o ddewis
sydd ar gael neu'n denu
ceisiadau o grwpiau sy'n
cael eu tangynrychioli ar hyn
o bryd yn y proffesiwn
dysgu.

(V) Eu bod yn dangos strwythur rheoli a fydd yn sicrhau gweithrediad llyfn y rhaglen hyfforddi, yn arbennig:-

- (a) bod rolau unigolion a swyddogaethau grwpiau a phwyllgorau yn cael eu diffinio'n glir ar hyd a lled y bartneriaeth hyfforddi;
- (b) y dewisir staff sydd â'r profiad a'r arbenigedd perthnasol;
- (c) bod cynlluniau datblygu staff ar gyfer pawb sy'n cyfrannu i'r hyfforddiant; a
- (d) bod gan fyfyrwyr lety, cyfleusterau ac adnoddau addas.

(VI) Eu bod yn hyfyw yn ariannol (neu'n gallu dangos y byddant yn hyfyw yn ariannol) a bod ganddynt systemau a gweithdrefnau manwl ar gyfer rheolaeth ariannol, yn arbennig:-

- (a) bod darpariaethau ar gyfer rheoli cyllid yn gadarn ac yn effeithlon;
- (b) bod cyfrifoldebau ar gyfer gwahanol swyddogaethau wedi'u nodi, gyda llinellau atebolrwydd clir; a
- (c) bod gweithdrefnau'n sicrhau y ceir gwerth gorau o ran gwario cyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

6. Wrth benderfynu a yw wedi'i fodloni bod sefydliadau wedi dangos neu'n parhau i gwrdd â'r meini prawf a nodwyd yn (I)-(VI) uchod, dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru roi ystyriaeth i unrhyw dystiolaeth berthnasol a gyflwynwyd iddo gan Estyn (swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru).

Tynnu achrediad yn ôl

7. Gall Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru dynnu achrediad sefydliad yn ôl lle bo dystiolaeth nad yw sefydliad achrededig

yn cydymffurfio ag unrhyw un o feini prawf presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y nodwyd yn yr offeryn hwn, neu lle bo darparwr yn peidio â chynnal pob cwrs Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

Amseru a threfniadau pontio

8. Yn ddarostyngedig i baragraff 9 ac i'r trefniadau pontio a ddisgrifir ym mharagraff 10, bydd y meini prawf achredu sydd wedi eu nodi yn y ddogfen hon yn berthnasol o 1 Medi 2007. Bydd Cylchlythyr 13/98 y Swyddfa Gymreig yn peidio â bod mewn grym ar 1 Medi 2007.
9. Cyn 1 Medi 2007, gall Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddefnyddio'r meini prawf achredu sydd wedi eu nodi yn y ddogfen hon wrth achredu darparwr ar unrhyw adeg o'r dyddiad y daw'r ddogfen hon i rym os yw'r darparwr yn cytuno.
10. Daw'r gofynion ar gyfer darparu cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sydd wedi eu nodi yn Atodiad A i'r ddogfen hon i rym ar gyfer pob cwrs neu raglen Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a gynigir gan sefydliadau achrededig ar 1 Medi 2007 gyda'r eithriadau canlynol:
 - (a) cwrs gradd llawn amser neu ran amser yn arwain i Statws Athro Cymwysedig, gyda'r flwyddyn olaf yn dechrau ar ôl 1 Medi 2007;
 - (b) rhaglenni rhan amser i raddedigion yn dechrau cyn 1 Medi 2007;
 - (c) rhaglenni 7-11 yn dechrau cyn 1 Medi 2007;
 - (d) cyrsiau gyda hyfforddeion a oedd i orffen cyn 1 Medi 2007 ond sydd wedi cael eu hymestyn, o ganlyniad i:
 - (i) fethu a'r angen i ail-wneud un agwedd o'r hyfforddiant;
 - (ii) newid o hyfforddiant llawn amser i ran amser;
 - (iii) penderfyniadau gan y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i ganiatáu i hyfforddeion

gwblhau unrhyw agwedd ar
y rhaglen yn ddiweddarach
(er enghraifft, hyfforddeion
yn cymryd blwyddyn allan
o'u hyfforddiant).

11. Cyn 1 Medi 2007, gellir defnyddio'r gofynion ar gyfer darparu cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a nodwyd yn Atodiad A i'r ddogfen hon ar gyfer cyrsiau neu raglenni Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a gynigir gan sefydliadau achrededig ar unrhyw adeg wedi'r dyddiad y daw'r ddogfen hon i rym os yw'r darparwr yn penderfynu hynny.

Llofnodwyd ar Ran Cynulliad Cenedlaethol
Cymru

Dyddiad:

Atodiad A

Y Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

R1: Gofynion mynediad¹

Mae'n rhaid i bob darparwr:

R1.1 fod wedi'i fodloni bod gan yr holl ymgeiswyr i gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon y gallu i ddiwallu'r Safonau Statws Athro Cymwysedig gofynnol erbyn diwedd eu cyrsiau a'u bod yn meddu ar nodweddion personol a deallusol addas i fod yn athrawon;

R1.2 sicrhau bod gan bob ymgeisydd safon gywerth â gradd C mewn arholiadau TGAU Saesneg a mathemateg;

R1.3 sicrhau bod yr holl ymgeiswyr a anwyd ar neu cyn 1 Medi 1979 sy'n mynd mewn i hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3 wedi cael safon gywerth â gradd C mewn arholiad TGAU pwnc gwyddoniaeth;

R1.4 sicrhau bod pob ymgeisydd wedi diwallu gofynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran iechyd a gallu corfforol i ddysgu²;

R1.5 gofalu bod cyfundrefnau wedi cael eu sefydlu i geisio cael gwybodaeth i ganfod a oes gan yr ymgeiswyr gefndir troseddol a all eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu bersonau ifanc; a sicrhau nad yw'r ymgeiswyr wedi cael eu gwahardd yn flaenorol rhag addysgu neu weithio gyda phlant;

R1.6 wedi'u bodloni y gall yr holl ymgeiswyr ddarllen yn effeithiol, a'u bod yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn gywir mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig;

¹ Mae'r gofynion mynediad a dethol hyfforddeion yn safonau gofynnol. Efallai bod gan sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Unigol feini prawf ychwanegol y maent eisiau eu defnyddio a gallant wneud hynny cyn belled â bod y safonau gofynnol yn cael eu cyflawni.

² Adeg cyhoeddi, yr oedd manylion y gofynion yn y Rheoliadau Safonau Iechyd Addysg (Cymru) 2004 a'r Ddogfen Wybodaeth 036/04.

R1.7 mewn achos cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i raddedigion, gofalu bod gan ymgeiswyr radd gyntaf o sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cywerth³;

R1.8 fel rhan o'r gweithdrefnau dewis, sicrhau bod yr holl ymgeiswyr a dderbynnir i hyfforddi wedi cymryd rhan mewn cyfweiliad grŵp neu gyfweiliad unigol.

R2: Hyfforddi ac asesu

Mae'n rhaid i bob darparwr:

R2.1 gynllunio cynnwys, strwythur a darpariaeth hyfforddiant i alluogi athrawon dan hyfforddiant i ddangos bod ganddynt Safonau Statws Athro Cymwysedig;

R2.2 gofalu bod cyflawniad athrawon dan hyfforddiant yn ôl Safonau Statws Athro Cymwysedig yn cael ei asesu'n rheolaidd ac yn gywir, a bod y darparwr wedi'i fodloni bod pob athro dan hyfforddiant wedi cael ei asesu yn erbyn Safonau Statws Athro Cymwysedig ac wedi cwrdd â'r Safonau hynny cyn cadarnhau i'r corff priodol⁴ y gellid eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwysedig;

R2.3 gofalu bod hyfforddiant yn rhoi ystyriaeth i anghenion hyfforddi unigol;

R2.4 paratoi pob athro dan hyfforddiant i ddysgu ar draws o leiaf dau Gyfnod Allweddol dilynol;

R2.5 gofalu bod athrawon dan hyfforddiant yn treulio o leiaf y cyfnod a nodir yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion, gan gydnabod y gall

³ Bydd raid i ymgeiswyr gyda Gradd Sylfaen ychwanegu at y cymhwyster hwn gydag o leiaf 60 credyd at Lefel 3 Addysg Uwch.

⁴ Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Hefyd gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru hysbysu personau eu bod yn athrawon cymwysedig ond mae wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor iddo ddelio â phob achos ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

profiad blaenorol athro dan hyfforddiant o weithio gyda disgyblion gyfrif at gyfanswm y cyfnodau hyn, yn ôl disgrisiwn y darparwr:

- 32 wythnos ar gyfer pob rhaglen radd pedair blynedd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen radd dwy a thair blynedd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen uwchradd a Chyfnodau Allweddol 2/3 i raddedigion
- 18 wythnos ar gyfer pob rhaglen gynradd i raddedigion.

Mae'n rhaid i bob athro dan hyfforddiant gael profiad mewn o leiaf dwy ysgol. Gellir cwblhau amser mewn ysgolion yn rhan amser er mwyn cyflawni cyfanswm y cywerth amser llawn uchod. Gall addysgu mewn sefydliadau ar wahân i ysgolion hefyd gyfrif at y cyfanswm cyn belled â'u bod yn galluogi hyfforddeion i weithio tuag at gyflawni Safonau Statws Athro Cymwysedig;

R2.6 sicrhau bod pawb yr asesir eu bod yn cwrdd â'r Safonau Statws Athro Cymwysedig yn cael Proffil Dechrau a Datblygu Gyrfa ac yn cael cymorth i'w gwblhau, a'u bod yn cael gwybod am y trefniadau statudol ar gyfer sefydlu athrawon sydd newydd gymhwysu ac yn cael cymorth i baratoi ar eu cyfer;

R2.7 gofalu bod myfyrwyr yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar ynglŷn ag amddiffyn plant, gan gynnwys adroddiad 'Clywch' Comisiynydd Plant Cymru am gamdrin plant; bod cyrsiau hyfforddi yn cynnwys ymwybyddiaeth am y ffordd y gall camdrinwyr weithredu; a bod casgliadau adroddiad 'Clywch' yn ffurfio rhan o gyrsiau hyfforddi.

R3: Rheoli Partneriaeth Hyfforddiant

Cychwynnol Athrawon

Mae'n rhaid i bob darparwr:

R3.1 weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chael yr ysgolion i gymryd rhan weithredol mewn:

- cynllunio a darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

- dewis athrawon dan hyfforddiant
- asesu athrawon dan hyfforddiant ar gyfer Statws Athro Cymwysedig;

R3.2 sefydlu cytundebau partneriaeth sy'n:-

- egluro rôl a chyfrifoldebau pob partner i bawb sy'n gysylltiedig
- nodi trefniadau ar gyfer paratoi a chefnogi'r holl staff sy'n ymwneud â hyfforddi
- ei gwneud yn glir sut mae adnoddau yn cael eu rhannu a'u dyrannu rhwng y partneriaid;

R3.3 sicrhau bod y bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol, a bod yr hyfforddiant wedi ei gyd-gysylltu a'i fod yn gyson, gyda pharhad ar draws y gwahanol gyd-destunau lle cynhelir yr hyfforddiant.

R4: Sicrhau ansawdd

Mae'n rhaid i bob darparwr:

R4.1 ofalu bod ei ddarpariaeth yn cydymffurfio gyda Gofynion presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynol Athrawon;

R4.2 gofalu bod gan athrawon dan hyfforddiant fynediad at lyfrau, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac adnoddau eraill sydd eu hangen arnynt – sy'n berthnasol i'r ystod oed a'r pynciau y maent yn cael eu hyfforddi ar eu cyfer – sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yr athrawon dan hyfforddiant at o leiaf y Safonau Statws Athro Cymwysedig;

R4.3 sicrhau bod gweithdrefnau safoni trwyadl mewnol ac annibynnol allanol wedi eu sefydlu i sicrhau bod asesiadau yn gywir ac yn ddibynadwy;

R4.4 sicrhau bod materion ynglŷn ag ansawdd a godwyd trwy safoni mewnol ac allanol yn cael eu harchwilio ac yn cael sylw i wella'r hyfforddiant;

R4.5 monitro a gwerthuso pob agwedd ar y ddarpariaeth, mewn ffordd systematig, er

mwyn gwella ei hansawdd ac er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio gyda Gofynion presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Dylid sefydlu systemau i:

- ganfod targedau ar gyfer gwella
- adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y targedau hyn
- nodi'r camau sydd raid eu gweithredu i sicrhau gwelliannau
- sicrhau y gweithredir yn ôl yr hyn a nodwyd, a bod hynny'n arwain at welliant;

R4.6 os ydynt yn darparu hyfforddiant yn rheolaidd, meincnodi eu perfformiad dros amser, ac mewn cymhariaeth â darparwyr tebyg, gan ddefnyddio tystiolaeth a gynhychwyd yn allanol ac yn fewnol i fod yn sail wybodaeth i osod targedau a chynllunio ar gyfer gwella.